GWYBODAETH GYFFREDINOL

Ceisiwch ymweld â'r oriel ymlaenllaw gyda chopi o'r nodiadau wed'i lawrlwytho er mwyn dod yn gyfarwydd â'r arddangosfa. Yn aml fe drefnir anerchiad i gydfynd â'r arddangosfeydd. Maent ar agor i'r cyhoedd ac maent yn rhad ac am ddim. Gallwch gael y manylion oddi wrth y tîm addysg ar rls@aber.ac.uk neu 01970 622888

CYN EICH YMWELIAD

Yn y dosbarth, trafodwch yr ymweliad a'r hyn y mae'r disgyblion (a chwithau!) yn disgwyl -

- **Gweld: (efallai y byddwch yn cael trafodaeth am wahanol fathau o gelf, paentio, cerflunwaith, serameg, ffilm ac hyd yn oed yn cael trafodaeth ar beth yw celf … dwfn iawn!)**
- **Gwneud: (edrych, siarad a gwrando i ddechrau, ond mae'n bosibl cofnodi beth yr ydych yn meddwl a beth y gallwch weld ar bapur gyda deunyddiau sych megis pen a phensil. Holwch yn y Ganolfan am y posibilrywdd o ddefnyddio ystafell arall ar gyfer gweithgareddau ymarferol ar ôl ymweld â'r oriel ac am y posibilrwydd o fenthyg deunyddiau.**

Gallwch ymweld â rhywle arall yn Aberystwyth, er enghraifft Amgueddfa Ceredigion neu'r Llyfrgell Genedlaethol, a llenwi'r diwrnod!

RHEOLAU

Mae rheolau'r oriel yn synnwyr cyffredin. Gofynnwch i'r disgyblion beth y dylai'r rheolau ddweud a phaham eu bod yn bwysig.

- Cerddwch yn yr oriel. (Mae yno waith gwerthfawr y gellir ei niweidio ac mae ymwelwyr eraill eisiau llonydd.)

- Cadwch eich dwylo i chi'ch hun (Hyd yn oed os yw'ch bysedd yn edrych yn lân, mae 'na saim arnynt sy'n gallu gwneud niwed i weithiau celf.)

- Cadwch y sŵn i lawr (mae'n beth da i drafod y gwaith celf ond dim mewn ffordd sy'n mynd i amharu ar ymwelwyr eraill.)

- Cadwch yn ddiogel. (Gallwch fynd ar goll. Os nad ydych yn teimlo'n dda neu 'rydych angen y toiled dywedwch wrth yr athro/athrawes ar unwaith. Mae'r brif ddesg yn lle da ar gyfer unrhyw ymholiadau.)

Byddai'r rheolau hyn yn gwneud poster grêt! (Gweithgaredd gwych ar gyfer y diwrnod cyn yr ymweliad.)

Bydd yr ymweliad yn llwyddiannus os yw'r plant yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt.

Mae ymwneud â chelf yn fwy na chreadigedd gweledol. Mae hefyd yn cefnogi sgiliau iaith a chyfathrebu, dylunio a thechnoleg, cydweithredu a gweithio fel tîm, sgiliau datrys problemau, dinasyddiaeth, addysg bersonol a chymdeithasol a'r Cwricwlwm Cymreig.

Mae'r cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau atodol yn sgil ymweliad â'r oriel yn ddi-ddiwedd. Cofiwch y gallwch drefnu defnyddio'r ystafell 2D i fyny'r grisiau o'r oriel os yw ar gael ar ddiwrnod eich ymweliad.
Cynhwysir syniadau am weithgareddau y gallwch wneud yn yr ystafell 2D yn y pecyn hwn.

GWOBRAU PORTREAD BP 2008

Mae Gwobrau Portread BP yn denu ceisiadau oddi wrth artistiaid o bob rhan o'r byd. Derbyniwyd gwaith oddi wrth gyfanswm o 1,727 o artistiaid o 26 o wahanol wledydd a bu panel o feirniaid yn dewis yr enillwyr a'r 55 o ddarnau i'w cynnwys yn yr arddangosfa. Mae'r darnau yn yr arddangosfa hon yn amrywio o ddulliau realistig i rai mynegiadol. Ac er nad ydym ni fel y gwylwyr yn adnabod y bobl yn y lluniau yn bersonol, 'rydym rhywsut yn dod yn rhan o'r perthynas rhwng yr artist, y pwnc a'r gwyliwr.

BETH YW PORTREAD?

Cynrychiolaeth artistig o berson yw portread. Gellir ei chreu mewn unrhyw gyfrwng, yn amrywio o baentiadau olew traddodiadol, i ffotograffau, cerflunwaith a hyd yn oed cyfrwng cymysg. Gall portread ddangos rhan o'r corff, fel arfer pen ac ysgwyddau'r person, ond gall hefyd ddangos y corff cyfan. Gall portread hefyd ddangos mwy nag un person, mewn portread o grŵp.

Wrth greu portread mae'r artist yn anelu at ddangos gwedd y person yn ogystal â rhai elfennau o'i gymeriad. Mae portreadau yn aml yn ymwneud â'r neges y mae'r artist, neu'r person a gomisiynodd y gwaith, yn dymuno cyfleu, megis prydferthwch merch neu gyfoeth a grym brenin neu frenhines.

Gwefan wych i chwi ymweld â hi ymlaenllaw ac i ddefnyddio ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol yw: www.show.me.co.uk/face it

Ceir yma lawer o syniadau ar sut i fynd i'r afael â phortreadau.

Rhai ffyrdd i drafod portreadau

- A oes gan rai o'r disgyblion luniau o bobl ar y muriau yn eu cartrefi?

- Pa fath o berthynas sydd ganddynt efo'r person yn y llun? (ffotograffau o'r teulu, posteri o sêr pop neu arwyr y byd chwaraeon)

- Beth yw'ch dealltwriaeth chi o'r gair 'portread'?

- Paham yr ydych chi'n meddwl bod artistiaid yn paentio portreadau o bobl?

(Trafodwch y ffaith fod llawer o artistiaid yn gwneud eu bywoliaeth o waith a gomisiynir, gyda'r artist yn cael ei dalu am baentio'r gwrthrych, i'w gyfleu mewn ffordd arbennig, i gofnodi'r gwrthrych am byth. A yw'r plant yn gweld gwaith yr artist fel gyrfa neu alwedigaeth?)

Gyda phlant hŷn, gellir trafod y syniad bod y ffordd y mae pobl yn ymateb i bortreadau o bobl benodol yn medru rhoi dealltwriaeth ddyfnach i ni o deimladau pobl e.e. dymchwel cerflun Saddam Hussein neu'r ddelwedd eiconig o Che Guevera.

Yn fwy na thebyg, ni fydd gennym ni fel gwylwyr unrhyw gysylltiad neu wybodaeth flaenorol am y bobl a bortreadir yn y lluniau yn yr arddangosfa hon, yn wahanol i'r portreadau y gall fod y plant yn gyfarwydd â nhw.

(Gallwch drafod unrhyw bortreadau enwog y mae'r plant yn debygol o fod yn gyfarwydd â nhw cyn edrych ar yr arddangosfa.)

AR Y RHESTR FER

Hannah O'Brien gan Robert O'Brien. Ganwyd Robert O'Brien ym 1954 yn Rochester, Efrog Newydd ac mae wedi bod yn paentio mewn dyfrlliwiau ers 30 mlynedd.

Di-deitl gan Peiyuan Jiang. Yn wreiddiol o Tsieina, mae Peiyuan Jiang yn fyfyriwr ym Mhrifysgol y Celfyddydau, Chelsea

Amanda Smith yn Rhodfa Vincent gan Simon Davis. Mae Davis yn aelod o Gymdeithas Artistiaid Frenhinol Birmingham ac mae'n gweithio fel darlunydd llyfrau comig cyfoes.



K gan Craig Wylie. Ganwyd Wylie ym Masvingo, Zimbabwe. Astudiodd y celfyddydau cain yn Ne Affrica gan raddio gydag anrhydedd ym 1996

Gadewch i'r plant gael golwg da ar yr arddangosfa ar eu pennau eu hunain; gallwch eu hannog i feddwl am y rheolau wrth ymweld ag oriel neu i edrych allan am rywbeth penodol fel emosiynau neu liw. Defnyddiwch hyn fel pwnc ar gyfer agor trafodaeth ar y portread cyntaf yr ydych yn bwriadu ystyried gyda'ch gilydd.

CWESTIYNAU I'W GOFYN WRTH EDRYCH AR Y PORTREADAU

Dewiswch y darnau yr hoffech edrych arnynt ymlaenllaw os 'rydych yn cael cyfle i ymweld â'r arddangosfa. Nid oes angen trafod y gwaith i gyd yn fanwl. Efallai y bydd rhai o'r disgyblion yn cael eu denu at waith penodol yr hoffent ei drafod. Gwnewch beth sy'n teimlo'n iawn i chi a'ch dosbarth.

- A yw maint y llun yn bwysig?

- Lle mae'r artist wedi gosod y ffigwr yn y gwaith?

- Pa ystum y mae'r gwrthrych wedi cymryd?

- Beth yw maint y gwrthrych o'i gymharu â phopeth arall?

- Beth a fynegir gan wyneb y gwrthrych?

- Pa ddeunyddiau y mae'r artist wedi eu defnyddio a sut maent wedi cael eu defnyddio?

- Beth yw perthynas yr artist â'r gwrthrych?

- Pa fath o ddillad y mae'r gwrthrych yn gwisgo – a yw'r dillad yn dweud rhywbeth i ni amdani / amdano?

- A oes unrhyw eitemau ychwanegol yn y llun sy'n dweud rhywbeth wrthym?

- A yw'r teitil yn dweud rhywbeth wrthym?

- Beth arall yr hoffech wybod am y gwrthrych?

Nid oes unrhyw ffordd gywir neu anghywir i 'ddarllen' portread, ond mae nhw'n aml yn cynnwys nifer o 'gliwiau' sy'n gallu datgelu gwybodaeth am fywyd a chymeriad y gwrthrych.

Lliw: gall lliw greu gwahanol fathau o ymatebion emosiynol.

Ystum: gall yr ystum ddangos pa fath o bersonoliaeth sydd gan y gwrthrych.

Mynegiant ar yr wyneb: gall hyn ddangos teimladau ac emosiwn yn glir

Gwisg: gall y dillad ddangos statws o fewn cymdeithas, uchelgais, statws ariannol etc.

Propiau: bydd y rhain weithiau yn rhoi cliwiau ynglyn â phroffesiwn, hanes etc.

Cefndir: os nad oes llawer o fanylion yn y cefndir, mae hyn yn helpu'r gwyliwr i ganolbwyntio ar y ffigwr canolog, ond gall y cefndir roi cliwiau i'r gwyliwr.

Cyd-destun Cymdeithasol: Wrth 'ddarllen' darn o waith 'rydym yn dod â'n disgwyliadau ein hunain, er enghraifft bod artistiaid yn gwisgo dillad â phaent arnynt. A ddylwn dderbyn neu herio'r disgwyliadau hyn?

GWAITH YMARFEROL YN YR ORIEL

Defnyddiwch lyfrau braslunio i astudio a chofnodi agweddau gwahanol o iaith weledol.

- edrychwch ar sut mae'r artist wedi tynnu llun y llygaid, trwyn, gwefusau etc.
- dewiswch un nodwedd a chofnodwch steiliau gwahanol allan o wahanol ddarnau yn eich llyfr braslunio. Wedyn trafodwch beth yr ydych wedi gweld.

  edrychwch ar y siapiau yn y gwaith. Er enghraifft mae amlinelliad y ffigyrau i gyd yn whanol. Cofnodwch yr amlinelliadau yn unig yn eich llyfrau.

  brasluniwch bortread sy'n ffefryn arbennig gennych.

Gellir rhoi i'r plant hŷn gopi o'r cwestiynau i'w gofyn ac mewn parau gallant drafod y rhain mewn cysylltiad â darn o waith nad ydych wedi trafod fel dosbarth. Wedyn gallant gyflwyno eu sylwadau i'r dosbarth.

GWEITHGAREDDAU YMARFEROL AF GYFER GWEITHDY I DDILYN YR YMWELIAD
(..i'w defnyddio yn ystafell 2D y Ganolfan neu yn ôl yn yr ysgol)

Creu portreadau – casglwch wahanol ddillad a phropiau a defnyddiwch nhw i 'wisgo' gwrthrych. Defnyddiwch hen ffrâm neu luniwch un allan o ddarn mawr o gardfwrdd ac anogwch y plant i arlunio'r gwrthrych.
Rhaid i'r rhain fod yn gyfres o astudiaethau sydyn (5munud) fel na fydd y gwrthrych yn cael cramp ac er mwyn cael y plant i arfer efo gweithio'n gyflym. Eglurwch fod y rhain yn beth a elwir gan yr artist yn 'astudiaeth', fel ymarfer, a nid dyma'r gwaith terfynol. Defnyddiwch ddeunyddiau nad ellir eu dileu megis siarcol, beiro etc.

Portreadau Digidol – defnyddiwch yr un propiau ag uchod ond cofnodwch y portreadau gyda chamera digidol. Wedyn gall y plant weithio o'r ddelwedd brintiedig, ychwanegu at y ddelwedd gydag offerynnau golygu TG neu weithio i fewn i gopi printiedig gyda phastelau olew neu baent.

Wynebau *collage* – mae cylchgronau yn cynnig cyfleoedd gwych i greu portreadau cyffrous. Defnyddiwch nodweddau wynebol y gallwch ddod o hyd iddynt yn y cylchgrawn neu ddyfeisiwch rai o'r newydd gan ddefnyddio gwahanol eitemau. Mae 'na amrywiaeth anhygoel o ansawdd ac arlliwiau ar flaenau'ch bysedd!

Portreadu mewn Parau - rhowch y plant mewn parau a defnyddiwch offer arlunio sych i dynnu llun pen ac ysgwyddau eich gilydd, un ar y tro.

Gweler isod nifer o awgrymiadau wrth dynnu llun wyneb y gallwch eu rhannu gyda'r plant hŷn.

Tynnu llun Wyneb

Ceir nifer o reolau sylfaenol i'ch helpu i dynnu llun wyneb. Dilynwch y camau syml hyn i dynnu llun blaen y wyneb (gellir addasu'r mesuriadau yn hawdd i greu eich portread unigol neu i dynnu llun o wahanol ongl).

Mae 'na lawer o wahanol siapiau wynebol, ond y siâp sylfaenol yw'r hirgrwn. Gallwch addasu'r siâp hirgrwn i'w wneud yn fwy sgwâr, yn fwy crwn neu fel siâp calon, yn dibynnu ar y person yr ydych yn tynnu ei lun. Dechreuwch drwy dynnu llun y siâp hwn.

1. **Rhannwch yr wyneb yn ddau hanner i lawr, bydd hyn yn helpu chi i osod y trwyn a'r nodweddion eraill.**
2. **Wedyn rhannu'r siâp hirgrwn yn ddau hanner ar draws, mae hyn yn creu llinell y llygaid.**
3. **Tynnwch linell arall ar draws hanner ffordd rhwng llinell y llygaid a gwaelod yr ên, dyma leoliad gwaelod y trwyn a bydd y llinell hon yn dangos i chwi lle i osod y clustiau.**
4. **Os 'rydych yn tynnu llinell arall yng nghanol y chwarter gwaelod, bydd y geg yn eistedd ychydig yn uwch na'r llinell hon.**

Yn fwy manwl:

1. **I leoli'r llygaid, rhannwch led yr wyneb, ar hyd llinell y llygaid, yn bum rhan. Fel arfer ceir lled un llygad rhwng y llygaid.**
2. **Mae gwaelod y trwyn yn aml mor llydan â'r lle rhwng dwy gornel fewnol y llygaid.**
3. **Os nad yw'r gwrthrych yn dangos unrhyw emosiwn arbennig, bydd**

corneli'r geg yn cydfynd â chanol y llygaid.

4. Mae'r clustiau yn eistedd o linell y llygaid i waelod y trwyn, felly gwnewch yn siwr eu bod yn ddigon o faint!

RHAGOR O SYNIADAU AR GREU PORTREADAU

Pwrpas y gemau hyn yw i'ch helpu i wneud portreadau o chi'ch hun ac eraill.

1. Caewch eich llygaid a thynnwch lun o'ch wyneb mewn munud. Peidiwch â phoeni sut y bydd yn edrych. Mwynhewch yr hwyl!

2. Meddyliwch am y gwahaniaethau rhwng hapus a thrist, a sut mae'r emosiynau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn eich wyneb. Tynnwch lun o linellau'ch ceg y ddwy ffordd.

3. Tynnwch eich portread mewn un llinell barhaol, heb gymryd eich pensil oddi ar y papur.

4. Symudwch eich bys yn araf i lawr eich wyneb i deimlo'ch proffil. Tynnwch lun y siâp fel yr ydych yn ei deimlo, dychmygwch fod eich bys yn bensil. Tywyllwch un ochr i'r llinell.

5. Tynnwch lun eich wyneb yn defnyddio ochr y pensil fel nad ydych yn gwneud llinellau pendant ond yn hytrach awgrym o bortread.

6. Dewiswch un nodwedd megis llygad, trwyn, ceg, clust, a thynnwch ei llun fel ei bod yn llenwi'r papur.

7. Tynnwch linell o gwmpas eich llaw, ond gyda tu fewn y llaw yn eich gwynebu, yn ôl yn erbyn y papur. 'Nawr rhowch linellau'ch llaw i fewn i'r llun.

8. Dewiswch nifer o bethau sy'n adlewyrchu eich diddordebau. Gosodwch eich hun o flaen drych gyda'r eitemau o'ch blaen a thynnwch lun chi'ch hun a'r eitemau.

9. Gafaelwch yn eich pen gydag un llaw a thynnwch lun eich pen a'ch llaw gyda'i gilydd fel un ffurf.

10. Gosodwch eich hun mewn man lle ceir golau cryf. Rhowch siarcol ar bapur a'i rwbio i fod yn llwyd llyfn. Tynnwch lun arno gyda rwber i ddangos y rhannau golau o'ch wyneb, wedyn gweithiwch gyda'r siarcol

ymhellach i uchelbwyntio'r rhannau mwyaf tywyll. Ceisiwch osgoi gwneud llinellau; aroswch gyda ffurfiau mawr.

11. Tynnwch lun o chi'ch hun mewn cymhariaeth i rywun arall.

12. Tynnwch eich portread trwy ddechrau gyda'r pwynt sydd agosaf atoch, y trwyn, ac yn gweithio allan. Pwysleisiwch strwythur y trwyn cyfan, soced y llygad, y geg a'r ên gyfan yn hytrach na'r ffroenau, canol y llygaid, y gwefusau.

Gwefannau defnyddiol

www.national portrait gallery.co.uk

www.show.me.co.uk

www.24hr **museum.co.uk**